# POLISI AR GYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

# Polisi Theatr Taking Flight ar

# Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ein cenhadaeth yw chwalu'r rhwystrau sy'n cadw pobl rhag cymryd rhan ym myd y theatr, gan frwydro'n ddibaid i ehangu'r cyfleoedd iddynt fod yn greadigol. Rydym am hyrwyddo cynrychiolaeth gyfartal i bobl Fyddar ac anabl yn y theatr trwy lefelu'r llwyfan. Rydym am weddnewid tirwedd y celfyddydau yng Nghymru a'r tu draw trwy herio eraill i feddwl yn fwy cynhwysol.

Ein gweledigaeth yw byd lle mae'r storïau a adroddir a'r lleisiau a glywir yn gwir adlewyrchu'r byd lle rydym yn byw; lle mae'r theatr yr ydym yn ei greu yn deall cynulleidfaoedd o bob lliw a llun ac yn eu gwahodd i mewn; lle mae'r cae chwarae'n wastad ac mae mynediad yn gyfartal rwydd i bawb.

## Diben y Polisi

Mae Theatr Taking Flight yn sefydliad hygyrch a chynhwysol. Rydym wedi ymrwymo i wella ac i ddadlau dros gydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn anad dim, ein nod yw trin pawb yn gyfartal deg, ni waeth am eu hoedran, eu hanabledd, eu hailbennu rhywedd, manylion megis priodas neu bartneriaeth sifil, cefndir cymdeithasol-economaidd, beichiogrwydd, diwedd y mislif na mamolaeth/ tadolaeth/ mabwysiadu, hil, crefydd na chred, rhyw, na chyfeiriadedd rhywiol. Mae hyn yn cwmpasu aelodau staff, gweithwyr llawrydd, sefydliadau, gwirfoddolwyr a chynulleidfaoedd.

Bydd y weithred o adlewyrchu newidiadau yn y gymdeithas a phrofiadau bywyd yn newid cwmpas a pharamedrau'r polisi hwn; fe gaiff y polisi ei adolygu a'u ddiwygio'n rheolaidd trwy ymgynghoriadau, trafodaethau a chyngor.

## Amcanion

- Mae Taking Flight yn cydnabod y ffaith nad yw grym yn ein cymdeithas ni'n cael ei gydrannu'n gyfartal, a bod grwpiau ac unigolion wedi dioddef ac yn dal i ddioddef gwahaniaethu am lu o resymau gan gynnwys er enghraifft hil, rhyw, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, dosbarth, crefydd, statws priodasol a'u lle preswyl.
- Mae Taking Flight yn cydnabod hefyd, lle mae gwahaniaethu boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn digwydd o fewn y sefydliad, fod hyn yn annerbyniol ar seiliau moesol a chyfreithiol.
- Nod y Polisi ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yw datgan yn glir ac yn llawn y gweithredu cadarnhaol y mae Taking Flight yn bwriadu ymgymryd ag ef i wrthsefyll gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol yn y sefydliad ei hun, yn y gwasanaethau a ddarperir ganddo, ac yn ei berthnasau â chyrff eraill.
- Wrth fabwysiadu'r Polisi hwn ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, mae Taking Flight yn ymrwymo'n ddiamwys hefyd i'w roi ar waith, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd cyfartal yn dod yn realiti.

## Cwmpas y polisi

Gyda golwg ar gyflawni amcanion Taking Flight, bydd y polisi hwn yn cwmpasu:

- Staff ar gyflog
- Gweithwyr llawrydd a chontractwyr
- Gwirfoddolwyr gan gynnwys y corff Llywodraethol
- Sefydliadau allanol a lleoliadau perfformio

## Hygyrchedd

Cynhelir ein holl gyfarfodydd, sesiynau rihyrsio a digwyddiadau mewn lleoliadau sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn, ace fe ddarparwn ni ystod o offer hyrwyddo mynediad megis dehongliadau BSL/Saesneg, capsiynau a/ neu gyfieithiadau ar y pryd, disgrifiadau sain ayyb. Fe anogir pobl i siarad â ni am ofynion eraill ynghylch mynediad na restrir yma.

Fe gyhoeddir ein holl ddeunydd cyhoeddus yn Saesneg, Cymraeg, BSL/ trwy gapsiynau, ffeiliau sain ac, lle bo'n bosibl, mewn fformat hawdd ei ddarllen – mae hyn yn cynnwys tudalennau gwefan, rhaglenni a thaflenni.

Bydd pob gweithgaredd yn cymryd lle mewn lleoliadau hygyrch, ac rydym yn brwd argymell i'r sefydliadau a'r canolfannau yr ydym yn gweithio gyda hwy fod mor hygyrch a chroesawgar ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ieithwedd sy'n briodol a hyrwyddo terminoleg sy'n rhydd o jargon.

Fe hyrwyddwn ni ddatblygiad atodiadau ynghylch mynediad personol gan gwmpasu anghenion anweledig o ran mynediad a fydd yn cynnwys offer a gofynion o ran rhwyddfynediad; fe bennir costau hyn a'i gymryd i ystyriaeth er mwyn sicrhau ymlaen llaw ein bod ni'n gallu darparu ar gyfer y gofynion hyn. Fe weithiwn ni gydag aelodau staff a chontractwyr at ddatblygu atodiadau ynghylch mynediad personol gan gynghori sefydliadau iddynt wybod y modd gorau i weithredu'r atodiadau hyn ynghylch mynediad.

Mae Taking Flight yn cydnabod y gall anghenion amrywio o ddydd i ddydd, a byddwn yn cymryd hyn i ystyriaeth yn rheolaidd neu o ddydd i ddydd yn ôl yr angen. Fe hyrwyddwn ni gyfathrebiad rheolaidd a sesiynau cadw mewn cysylltiad yng nghyswllt Iechyd Meddwl, amgylchiadau ansefydlog a lefelau egni ayyb er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau'n briodol, a'i bod hi'n bosibl gwneud addasiadau fel bo angen. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n hyblyg neu weithio gartref lle bo'n bosibl.

## Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn fwy na mater o dicio blychau; mae'n cwmpasu ystod o gefndiroedd a phrofiadau – nid mater o hil yn unig yw'r rhain eithr yr holl nodweddion sy'n ein gwneud ni i gyd yn wahanol, a mynegi gwir ddiddordeb mewn ystod eang o farnau, cefndiroedd a phrofiadau.

Fe ymdrecha Taking Flight i fod yn agored i syniadau newydd, gan bwysleisio rhoi blaenoriaeth i greu cyfleoedd i artistiaid a chynulleidfaoedd gydrannu eu hetifeddiaeth ddiwylliannol, eu cefndiroedd cymdeithasol-economaidd a'r profiadau y maent wedi byw trwyddynt gyda golwg ar feithrin awyrgylch ymddiddanol agored sy'n parchu gwahaniaeth.

## Cynhwysiant a pharch

Dylid sicrhau bod pob person sy'n dod i gysylltiad â Taking Flight yn cael teimlo bod croeso cyfartal iddi/iddo.

Nid yw sylwadau nac unrhyw ymddygiad sy'n rhywiaethol, hilyddol, homoffobig, trawsffobig, yn gwahaniaethu yn erbyn pobl Fyddar neu anabl, neu sydd mewn ffordd arall yn sarhaus neu'n ymfflamychol yn dderbyniol. Mae'r rhain yn gyfwerth ag aflonyddwch, ac nid oes lle iddynt yng ngwaith Taking Flight na'i gylch dylanwad.

Fe wrandawa Theatr Taking Flight yn frwd ar ei staff, cynulleidfaoedd, rhanddeiliaid ac ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau bod cynifer o leisiau a barnau â phosibl yn cael eu clywed.

## Delio â gwahaniaethu ac aflonyddu

Os bydd unrhyw aelod o'r staff yn teimlo bod Theatr Taking Flight wedi gwahaniaethu yn ei (h)erbyn neu ei b/fod wedi dioddef aflonyddwch yn un o ddigwyddiadau Taking Flight, dylai godi'r mater yn y lle cyntaf gerbron ei R(h)eolwr Llinell. Bydd y Rheolwr Llinell yn ymchwilio i'r gwyn, gan wrando ar bob aelod sydd â rhan yn y mater.

Fe wneir pob ymdrech i ddatrys unrhyw broblem trwy sgwrsio yn y lle cyntaf. Os yw'r gwyn yn ymwneud â'r Rheolwr Llinell, fe gaiff ei hatgyfeirio i'r Prif Swyddog Gweithredol neu i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a dilynir gweithdrefn gwyno Taking Flight a amlinellir yn llawlyfr y staff a'r dogfennau ategol.

Os yw'r gwyn yn cyfeirio at unigolyn penodol, bydd cyfle gan y person hwnnw i fynegi ei safbwynt, yng nghwmni ffrind. Bydd gan y person sy'n cyflwyno'r gwyn yr un cyfle.

Os yw'r gwyn yn cyfeirio at y Sefydliad fel cyfangorff, bydd yn rhaid i'r Prif Swyddog Gweithredol/Bwrdd yr Ymddiriedolwyr weithio at sicrhau na fydd y fath wahaniaethu'n digwydd eto, a bydd yn rhaid iddynt hysbysu'r achwynydd am sut maent yn bwriadu gwneud hyn.

Fe wneir unrhyw benderfyniad i ddiarddel person o'r sefydliad oherwydd ymddygiad gwahaniaethol neu aflonyddol yn unol â chyfansoddiad y sefydliad. Bydd y sefydliad yn cefnogi pobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu haflonyddu neu ddioddef gwahaniaethu, ac ni fydd yn eu herlid nac yn eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu bod wedi codi'r mater hwn.

Cymeradwy-wyd gan y Bwrdd ar: 6ed

Ionawr 2023

Fe adolygir y polisi ar: 6ed Ionawr 2024